

Y nos Fercher o'r blaen yn y Ffestri dangoswyd ffilm o Fryniau Castia mewn du a gwyn gan ddwy genadeisen Miss Jane a Fflori Roberts, Miss Jane a ofalai am y Protector a Miss Fflori am y Pointer. Rhyngddynt fe roddasant i ni noson addysgiadol ac amserol. Oherwydd anawsterau technegol y pa rai oedd o'r tu hwnt i reolaeth meidrol ddyn bu raid i'r Musesus Roberts ddangos y ffilm â'i phen i lawr. h.y. â'i thraed i fyny....Awgrymodd Miss Fflori i'r plant sefyll ar eu pennau er eu galluogi i lawn ddirnad a gwerthfawrogi y sefyllfa.'

Rydym i gyd, rwy'n siwr, yn gyfarwydd â mân hybysebion sy'n ymddangos yn wythnosol. Dyma ichi rai hynod yn y Saesneg:

Hendre Hirlwm

Thirty five acorns of good ciamping in pheasant surroundings. No rocks, ideal for peging. Dogs welcym home always. Ffresch Botogias in stock. No gates for open or shut, cattle grids for trelyrs and carafans. Apply i Lusa Huws (Prop.).

Â'r gyfrol ymlaen i gofnodi hanesion papur newydd am y Cwrt bach, Eisteddfod yr Urdd, Organ rishyital, Ymchwiliad Cyhoeddus, Gweithgareddau'r Gaeaf, y Gog - mewn gwirionedd, popeth sy'n digwydd yn ein pentrefi a'n hardaloedd ni.

Mae'r gyfrol yn awyr iach ac yn hileriys ac mae'r union anrheg i'w roi y Nadolig i godi calon y tristaf ohonom.

R. Elwyn Hughes yn olrhain Llyfrau D. Tecwyn Lloyd

Ymhlith y llyfrau a oedd ar werth gan Bonhams (Llundain) yn eu harwerthiant llyfrau ar 20fed Medi 2005 oedd adran neilltuol Wales a Cymraeg - *Books from the collection of the late D. Tecwyn Lloyd.*

Cynhwysai'r adran 300 o lyfrau a llyfrynau wedi'u dosbarthu yn 57 eitem, a nifer ohonynt yn cynnwys plât llyfr personol y diweddar berchennog. Bu'r rhan fwyaf ohonynt yn llyfrynau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond bu hefyd nifer sylweddol o glasuron Cymraeg a Chymreig. Methwyd â gwerthu cryn nifer o'r llyfrau Cymraeg a gwerthwyd y rhan fwyaf o'r gweddill am brisiau a oedd yn sylweddol is na'r amcanbris. Wele ychydig enghreifftiau o'r prisiau a gyrhaeddwyd:



Samuel, *Holl ddyledsdyddau dyn* (1718, £100); *Wotton Cyfreithiau Hywel Dda* (1730), £40; *Caniadau W. J. Gruffydd* (Gregynog, 1929) £40; *Rowlands Mona Antiqua...* (1723), £40; *Thomas Hanes y Byd* (1721), £120. Bu gwell mynd, fodd bynnag, ar y geiriaduron: *Thomas Jones* (1688), £300; *Sion Rhydderch* (1725), £200; *William Evans* (1771), £50; *Walters* (1794), £100. A thalwyd £1,200 am [Compton] *The Cambrian Mountains*; £2,000 am Hoare *The Itinerary of Archbishop Baldwin through Wales...* (1806) a £460 am Samuel *Bucheddau'r Apostolion...* (1704).

Peth trist yw gweld chwalu a gwerthu llyfrgell Gymraeg; tristach byth yw gweld hyn yn digwydd mewn arwerthiant yn Lloegr.

At y Golygydd

Perthi,
11 Cae Bryn,
Garth,
Llangollen

Annwyl Olygydd,

Rwy'n mwynhau Y Casglwr : Digio braidd wrth Bruce Griffiths am fod yn ddilornus o Iona Trefor Jones. Roedd hi'n un o brif artistiaid trefnu blodau yn rhyngwladol. Cychwyn yn ddihyfforddiant ac ennill yn Sioe Amwythig, ac yn Llundain, ac ym Mharis. Dangos a darlithio trwy'r byd. Cafodd ei magu yn Nhregeiriog, mynd i ysgol Llangollen yr un amser ag Islwyn Ffowc Elis. Ysgrifennodd Islwyn gyflwyniad i un o'i llyfrau. Yn ddiweddarach cymerodd hi a'i gŵr blas Trelydan wrth y Trallwm. Addaswyd y tŷ i drefnu cyrsiau a nosweithiau Trefnu Blodau. Roedd ganddi un ystafell oedd yn cael ei galw yn 'Ystafell Nansi, hefo llun Nansi Richards â'i thelyn, ar y wal. Cymraes i'r carn a ddaeth â llawer o glod i Gymru. Roedd yn wraig wadd mewn dathliad yn Llangollen ychydig dros flwyddyn yn ôl.

Cofion,
Rhiannon Grey Davies.



Annwyl Olygydd,

Wrth ddarllen y frawddeg 'Ardystiodd sawl llw o ddirwest, a'u torri yn rhags jibiders' yn yr hanes am 'Llew Llwyfo a Llywelyn Parri - Llênladrad?,' daeth hanesyn i'm cof amdano yn galw yn un o dafarnau Llanelli, yn gofyn am beint a chael ei wrthod am fod amser 'stoptap' wedi mynd heibio. Tynnodd ei oriawr o'i boced a dywedodd:

*Mae'r wats wedi witcho - a'i dwylo,
Myn diawl, wedi stopio;
Hen gydymaith, go damio
Wnaeth y Llew mor dwp â llo'.*

Yn gywir,
Esmor Evans